



RHEOLI CYSYLLTIADAU ALLANOL AFRESYMOL

CYNNWYS

1.	Cyflwyniad.....	1
2.	Nodau	1
3.	Ymddygiad Ymosodol, Camdriniol neu Dramgwyddus	1
4.	Galwadau neu Ddyfalbarhad Afresymol.....	2
5.	Terfynu Galwad Ffôn.....	2
6.	Ystyried Pryd i Reoli Cysylltiad.....	3
7.	Penderfyniad Ffurfiol i Reoli Unigolyn sy'n Cysylltu	3
8.	Adolygu Penderfyniadau.....	4
9.	Apelio Penderfyniad	4
10.	Polisiâu Cysylltiedig	4
11.	Dehongliad.....	4
	ASESU'R EFFAITH AR Y GYMRAEG.....	5

1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r Polisi hwn yn berthnasol i holl gyflogeion Tribiwnlys Prasio Cymru p'un ai'n cael eu cyflogi ar sail amser llawn, rhan amser neu dros dro, ac i aelodau'r Tribiwnlys.
- 1.2 Cynhyrchwyd y canllawiau a ganlyn i gynorthwyo cyflogeion Tribiwnlys Prasio Cymru i reoli'r nifer fechan o gysylltiadau lle mae ymddygiad neu weithredoedd y sawl sy'n cysylltu'n gamdriniol neu'n afresymol ac yn medru herio ein gallu i ddarparu gwasanaeth effeithiol i'n holl ddefnyddwyr eraill.

2. NODAU

- 2.1 Prif nod y polisi hwn yw sicrhau cydraddoldeb a thegwch, gwella effeithlonrwydd a rheoli'r risgiau i iechyd a diogelwch staff. Mae'n berthnasol i'r holl feysydd gwaith lle gall unigolyn allanol gysylltu gyda staff un ai ar y ffôn neu'n ysgrifenedig (mae hyn yn cynnwys cyfathrebu electronig).
- 2.2 Bydd yr holl bobl sy'n cysylltu gyda ni yn cael eu trin gyda pharch a thegwch, hyd yn oed os ydym ni'n dirnad eu hymddygiad neu eu gweithredoedd fel rhai heriol.
- 2.3 Bydd Tribiwnlys Prasio Cymru bob amser;
 - yn achos cwyn, yn gwahanu'r modd y gallai fod angen rheoli'r cysylltu gyda'r cwynwr oddi wrth y ffordd mae'n ymdrin â'r gŵyn.
 - yn ystyried unrhyw addasiadau rhesymol sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau cydymffurfio gyda deddfwriaeth cydraddoldeb.

3. YMDDYGIAD YMOSODOL, CAMDRINIOL NEU DRAMGWYDDUS

- 3.1 Mae gan staff Tribiwnlys Prasio Cymru yr hawl i weithio mewn amgylchedd sy'n rhydd o ymddygiad neu iaith ymosodol, camdriniol neu dramgwyddus bob amser.
- 3.2 Mae Tribiwnlys Prasio Cymru'n ystyried bod ymddygiad o'r fath yn cynnwys:
 - rhegi neu wneud sylwadau bychanol;
 - cyfeiriadau diwylliannol, hiliol, gwleidyddol neu grefyddol amhriodol;
 - gweiddi neu bod yn anghwrtais;

- ymddygiad bygythiol; a
- camdrin emosiynol neu ymddygiad ystrywgar.

3.3 Mae bygwth trais corfforol neu aflonyddu ar unrhyw aelod o staff yn annerbyniol a hysbysir yr heddlu am hyn.

4. GALWADAU NEU DDYFALBARHAD AFRESYMOL

4.1 Mae Tribiwnlys Priso Cymru wedi ymrwymo i ddarparu swm cyfrannol o amser ac adnoddau i bob achos wrth ymdrin â'i lwyth gwaith apeliadau. Gallai galwadau afresymol a dyfalbarhad atal staff rhag cyflawni'r ymrwymiad hwn.

4.2 Mae Tribiwnlys Priso Cymru'n ystyried bod ymddygiad afresymol yn cynnwys:

- Galwadau ffôn, negeseuon e-bost neu lythyrau gormodol;
- Anfon gohebiaeth wedi'i ddyblygu;
- Gwrthod derbyn penderfyniad neu esboniad yn gyson;
- Parhau i gysylltu gyda Thribiwnlys Priso Cymru ar ôl penderfyniad, am yr un mater neu faterion tebyg, pan fo'r holl ddulliau unioni potensial gan Tribiwnlys Priso Cymru wedi darfod;
- Galw am ymateb mewn cyfnod amser afresymol;
- Gofyn am wybodaeth nad yw'n berthnasol i'r gŵyn;
- Gwrthod â chydymffurfio â Pholisi a Gweithdrefnau Cwynion Tribiwnlys Priso Cymru;
- Codi materion sy'n amherthnasol i'r achos neu'r gŵyn, neu newid sylwedd y cysylltiad neu'r gŵyn dro ar ôl tro; a
- Cysylltu dro ar ôl tro, neu'n mynnu siarad gydag aelod o staff nad yw'n ymdrin yn uniongyrchol â'r achos neu'r gŵyn.

5. TERFYNU GALWAD FFÔN

5.1 Caiff staff Tribiwnlys Priso Cymru derfynu galwad ffôn os ydynt yn wynebu'r ymddygiad a amlinellwyd ym mharagraffau 3 a 4 uchod. Cyn gweithredu yn y modd yma, bydd staff yn rhybuddio'r galwr bod eu hymddygiad yn peri pryder, er mwyn caniatáu i'r unigolyn gymedroli eu hymddygiad. Os yw'r ymddygiad yn parhau, ni roir rhybudd pellach, a bydd yr alwad yn cael ei therfynu.

5.2 Bydd yr aelod staff sy'n terfynu galwad yn hysbysu eu Rheolwr Llinell am y gweithredu hwnnw.

5.3 Yn dilyn terfynu galwad, os yw'r unigolyn dan sylw yn cysylltu eto a bod yr ymddygiad yn parhau yr un fath, gallai'r Rheolwr Llinell gyfyngu ar gysylltu ar y

ffôn am un diwrnod. Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei gofnodi a'i gyfathrebu i'r holl staff sy'n derbyn galwadau rheng flaen.

- 5.4 Os nad yw'r unigolyn sy'n cysylltu gyda ni yn cymedroli ei ymddygiad, rhoir rhagor o ystyriaeth i reoli'r cyswllt rhwng yr unigolyn hwn a Thribiwnlys Priso Cymru yn ffurfiol.

6. YSTYRIED PRYD I REOLI CYSYLLTIAD

- 6.1 Yn y nifer fach iawn o achosion lle bo gweithredoedd neu ymddygiad unigolyn sy'n cysylltu gyda ni yn herio ein gallu i ddarparu gwasanaeth effeithiol, fel y nodir ym mharagraffau 3 a 4 uchod, dylai'r aelod staff hysbysu eu Rheolwr Llinell am eu pryderon. Bydd y Rheolwr Llinell yn penderfynu a yw'n angenrheidiol cyflwyno llythyr rhybudd, gan gynnwys copi o'r polisi hwn gyda'r llythyr, os oes angen. Os yw'r ymddygiad yn ddigon difrifol, neu bod rhybudd wedi'i gyflwyno eisoes, gwneir penderfyniad ffurfiol i reoli'r unigolyn sy'n cysylltu.

7. PENDERFYNIAD FFURFIOL I REOLI UNIGOLYN SY'N CYSYLLTU

- 7.1 Gall Tribiwnlys Priso Cymru reoli'r unigolyn sy'n cysylltu (ymhlith ystyriaethau eraill) trwy'r mesurau isod:
- Cyfyngu'r cysylltu i un cyfrwng e.e. gellid cyfyngu'r cwynwr i gysylltu gyda Thribiwnlys Priso Cymru trwy e-bost neu lythyr yn unig;
 - Cyfyngu galwadau ffôn i ddyddiau penodol a/neu amseroedd penodol;
 - Trefnu un man cyswllt ar gyfer yr holl ohebiaeth yn y dyfodol;
 - Blocio derbyn galwadau ffôn a/neu negeseuon e-bost;
 - Cynghori'r cwynwr y bydd eu gohebiaeth yn cael ei darllen i sicrhau nad oes unrhyw faterion newydd yn cael eu codi ond yna bydd yn cael ei ffeilio neu ei difa heb gydnabyddiaeth.
- 7.2 Gwneir y penderfyniad ffurfiol sut i reoli unigolion sy'n cysylltu gan aelod o'r tîm gweithredol, yn dilyn trafodaeth gyda'r Rheolwr Llinell perthnasol, ar sail bob achos unigol.
- 7.3 Bydd y Rheolwr Gweithredol yn cofnodi eu penderfyniad ac unrhyw weithredoedd i'w dilyn yng nghofrestr *Rheoli Cysylltiadau* Tribiwnlys Priso Cymru.
- 7.4 Bydd y Rheolwr Gweithredol yn hysbysu'r unigolyn am y penderfyniad i reoli eu cysylltu, yn ysgrifenedig, gan nodi pam y gwnaed y penderfyniad hwn, pa mor hir y bydd unrhyw gyfyngiad yn weithredol, pryd y bydd yn cael ei adolygu

a'r hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad. Amgaeir copi o'r polisi hwn gyda'r llythyr penderfyniad.

8. ADOLYGU PENDERFYNIADAU

- 8.1 Bydd y penderfyniad i adolygu cyswllt gyda'r unigolyn yn cael ei adolygu gan Reolwr Gweithredol ar yr adeg a nodwyd yn y llythyr penderfyniad. Ni fydd hyn fwy na chwe mis ar ôl dyddiad gwneud y penderfyniad a bydd unrhyw addasiadau i'r cyfyngiad yn cael eu nodi yng nghofrestr *Rheoli Cysylltiadau* Tribiwnlys Prasio Cymru.

9. APELIO PENDERFYNIAD

- 9.1 Caiff unigolyn apelio yn erbyn penderfyniad Rheolwr Gweithredol i reoli cyswllt yr unigolyn gyda'r tribiwnlys, cyn pen 20 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr penderfyniad. Rhaid gwneud hynny yn ysgrifenedig i Brif Weithredwr Tribiwnlys Prasio Cymru, a fydd yn ystyried yr apêl ac yn cyngori'r unigolyn yn ysgrifenedig p'un ai'r penderfyniad yw diddymu, amrywio neu barhau gyda'r cyfyngiad. Penderfyniad y Prif Weithredwr yw'r cam terfynol yn y weithdrefn.

10. POLISIÂU CYSYLLTIEDIG

- 10.1 Mae'r polisiâu Tribiwnlys Prasio Cymru a ganlyn yn ddogfennau cysylltiedig a dylid edrych arnynt ar y cyd â'r Polisi hwn:

Polisi a Gweithdrefn Gwynion

11. DEHONGLIAD

- 11.1 Nod y darpariaethau uchod yw darparu canllawiau cryno ar sut y bydd cysylltiadau allanol afresymol gyda'r Tribiwnlys Prasio Cymru yn cael eu rheoli. Fodd bynnag, os yw unrhyw rai o'r darpariaethau'n aneglur, dylid gofyn am ragor o gyngor ac arweiniad gan y Prif Weithredwr, neu aelod o'r Tîm Rheoli Gweithredol yn ei absenoldeb.

ASESU'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

Mae Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Priso Cymru wedi ystyried y cwestiynau a ganlyn ac wedi rhoi'r atebion a ganlyn wrth adolygu'r polisi hwn ar 26 Mawrth 2019:

- A. A yw'r polisi hwn yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol neu andwyol ar —
(a) cyfleoedd unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) sicrhau nad yw'r
Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Ymateb:	O ran y Gymraeg, mae'r polisi hwn yn creu ...	
	...effeithiau cadarnhaol	...effeithiau andwyol
(a) Cyfleoedd	Na	Na
(b) Trin yr iaith	Na	Na

- B. Wrth ddatblygu'r polisi hwn a ydym ni wedi ystyried sut y gallem ei ffurfio neu ei newid yn y fath fodd fel ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol neu gynnydd yn yr effeithiau cadarnhaol ar — (a) cyfleoedd unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Ymateb:	Wrth ddatblygu'r polisi ystyriwyd...	
	...effeithiau cadarnhaol	...cynyddu'r effeithiau cadarnhaol
(a) Cyfleoedd	Do	Do
(b) Trin yr iaith	Do	Do

- C. Wrth ddatblygu'r polisi hwn a ydym ni wedi ystyried sut y gallem ei ffurfio neu ei newid yn y fath fodd fel na fydd y penderfyniad polisi yn cael effeithiau andwyol, neu fel ei fod wedi lleihau'r effeithiau andwyol, ar — (a) cyfleoedd unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Ymateb:	Wrth ddatblygu'r polisi ystyriwyd ...	
	...effeithiau andwyol	...lleihau'r effeithiau andwyol
(a) Cyfleoedd	Do	Do
(b) Trin yr iaith	Do	Do